CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 21 GORFFENNAF 2009

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng. H W Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, R Anderson, O T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, R Bonner- Pritchard, A Roberts

1. Ymddiheuriadau
Cyng. W L Davies – gwyliau
Cyng. M Thomas – gwyliau
Cyng. W T Owen a Cyng. W R Owen – gwaith Cyngor Sir
Cyng. M Powell-Jones – Ymweld a Ken yn ysbyty

2. Datgan Buddiant Personol
I C Thomas – Cynllunio, llythyr Gwyn Llywelyn a Revision Order
H Edwards – Cynllunio

3. Eitemau brys
Dau Llythyr diolch a hysbysiad am Eisteddfod Cenedlaethol

4.Ceisiadau Cynllunio
(aeth Cyng. H Edwards i'r gadair ar gyfer yr eitem gyntaf)
I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr o argymhellion i'r Awdurdod Priodol

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

7. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd O. T. Owen
Penderfynwyd
Tynnodd Cyng. O T Owen y cynnig yn ôl gan nad oedd wedi llwyddo i dderbyn manylion llawn

8. Y Maes

i. E-bost Cyng. R. Anderson
ii. Llythyr Dafydd Wyn Williams

Penderfynwyd

i. Maer a'r clerc i gyfarfod aelodau Ceg i drafod y syniad o Bwyllgor i'r Maes
ii. Gwahodd PRIF swyddogion y fenter i ddod i siarad a'r Cyngor a pawb i baratoi cwestiynau o flaen llaw i'r clerc

9. **Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Roberts**

Penderfynwyd

Erfyn ar Cyngor Gwynedd i osod croesfan, arwyddion, twmpathau a canllaw

10. **Cynhadledd Cenedlaethol Clercod**

Penderfynwyd

Talu am eleni

11. Llythyr Hywel Williams AS + atodiad

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. CCTC

i. Bowlio- **gobeithiol bod clwb Caernarfon am cymeryd rhan**
ii. '2010 Executive'- **croesawu nhw i Gaernarfon(cofio glustnodi arian yn yr amcangyfrifon)**
iii. Marchnata – **angen sefydlu is –bwyllgor marchnata o fewn y Cylch er mwyn hybu'r trefi yn well**
iv. Rali Ceir – **angen cefnogaeth y Cynghorwyr oll**

Penderfynwyd

Gweler uchod

13. 'Switchover' Digidol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. **Llythyr gan Gwyn a Luned Llewelyn**

Par: Sbwriel

Penderfynwyd

Anfon copi ymlaen i Cyngor Sir

15. ‘Revision Order’ Harbwr Caernarfon

Adroddodd Cyng I C Thomas bod Llywodraeth wedi cyhoeddi adroddiad “Modernising Trust Ports” yn Ionawr 2000. Danfonwyd gwas civil i siarad a’r ymddiriedolaeth mis Mawrth 2000 ynghylch a’r oblygiadau porthladdoedd. Dywedodd y buasai porthladdoedd oedd ddim yn cydymffurfio yn cael eu “named and shamed”. Dywedodd hefyd mai lleihau niferoedd o ymddiriedolwyr oedd prif bwriad- ac yn achos Caernarfon lleihau o 13 i 9 oedd angen. Wrth weithredu’r adolygiad roddwyd blaenoriaeth i Porthladdoedd mawr fel Dover. Roddwyd nifer o drafftiau gerbron, ond y ddogfen sydd gerbron yw’r un sydd wedi ei cytuno gan y Llywodraeth

Prif wahaniaeth lleol ydi lleiha’r niferoedd o 13 i 9 ac ymestyn ardal strategol yr ymddiriedolaeth i gynnwys “the Swillies “ ardal o Bont Britannia a Bont Menai

Penderfynwyd

Diolch am yr adroddiad a derbyn eu gynnwys

16. Adroddiad ar Bwyllgor Eisteddfod yr Urdd ym Mhenygroes

Adroddodd y clerc bod yr Eisteddfod wedi cael ei chyhoeddi yn swyddogol i ddod i’r ardal yn 2012

Bydd hyn yn denu oddeutu

15,000 o cystadleuwyr

100,000 o ymwelwyr

6.6m i’r economi leol

Mae’r eisteddfod yn chwilio am

Wirfoddolwyr

Safle Addas (angen bod yn 40 acr)

Ac yn amlwg - arian

Adroddodd Cyng. A Roberts ei fod o eisoes wedi ysgrifennu yn awgrymu caeau Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru fel man addas, a bod o wedi dderbyn ymateb i’r llythyr yn nodi ei fydd yn cael ei ystyried

Penderfynwyd

I gofio am yr eisteddfod wrth baratoi’r amcangyfrifon a Diolch i Cyng A Roberts

17. Cwestiynau

Ydi Cae Phillips yn mynd i’r Mynwent pan mae o yn llawn neu i’r ysgol newydd? Wedi ei nodi fel darn o dir **ellir ei ystyried** yn y dyfodol ar gyfer y mynwent , ond dim wedi eu clustnodi i’r pwrpas yna yn benodol

18. Llythyrau Diolch

Gogs a Sioe Amaethyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19. **Eisteddfod Cenedlaethol**

Hysbysiad gan Unllais am sesiwn i drafod cydweithio rhwng Cyngor Sir a Cynghorau Cymuned(cynllun Penllyn) am 11.30 Bore Llun Awst 3ydd ar stondin Cyngor Sir

Gorffennodd y cyfarfod am 7.50

Arwyddwyd..... Dyddiad.....